Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Iau Hen Golwyn
Church Walks
Hen Golwyn
Conwy
LL29 9RU

24/09/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Medi 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Iau Hen Golwyn ar 18 Medi 2025 i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

**Ffocws yr ymweliad**

**Darparu lefel briodol o her ar gyfer pob disgybl**

- Mae arweinwyr yn datblygu ymagwedd ysgol gyfan at sicrhau bod gweithgareddau a phrofiadau dysgu yn diwallu anghenion disgyblion yn addas.
- Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n herio ac yn ymgysylltu â llawer o ddisgyblion yn briodol. Mewn ychydig o enghreifftiau, nid yw gweithgareddau'n herio disgyblion yn ddigon cyson.
- Mae gan lawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at eu profiadau dysgu. Maent yn croesawu her ac yn dewis tasgau sy'n ymestyn eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn annibynnol. Maent yn cyfiawnhau eu dewisiadau'n rhesymegol ac yn aeddfed.
- Ar y cyfan, mae adborth athrawon yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd addas yn eu dysgu. Pan mae hyn yn llai effeithiol, mae adborth yn tueddu i ganolbwyntio ar sillafu a gramadeg yn hytrach nag ar agweddau pwysig sy'n benodol i dasg.

- Mae athrawon yn defnyddio ystod dda o dechnegau holi sy'n atgyfnerthu pwyntiau dysgu ac yn herio disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu. Yn yr enghreifftiau gorau, mae cwestiynau'n procio dealltwriaeth disgyblion, yn annog disgyblion i feddwl yn feirniadol ac yn cynorthwyo disgyblion i ymhelaethu ar eu hatebion.

**Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio ar effaith yr addysgu ar ddysgu**

- Mae arweinwyr yn trefnu ystod o weithgareddau hunanwerthuso addas sy'n nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys edrych ar waith disgyblion, dadansoddi deilliannau asesu a thrafodaethau â disgyblion am eu dysgu.
- Mae arweinwyr yn rhannu deilliannau prosesau sicrhau ansawdd gydag athrawon. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth addas i athrawon o'r gwelliannau sydd eu hangen i ymestyn profiadau dysgu disgyblion a'u cynorthwyo i wneud cynnydd mewn medrau.
- Mae arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd cryfhau rôl llywodraethwyr mewn prosesau hunanwerthuso i ddatblygu eu dealltwriaeth o ansawdd addysgu a dysgu ar draws yr ysgol.
- Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen cryfhau gweithgareddau hunanwerthuso i sicrhau ffocws cliriach ar effaith yr addysgu ar ddysgu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-iau-hen-golwyn-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol